Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Strategaeth Gomisiynu
# Heddlu Dyfed-Powys

**Diweddarwyd: Ebrill 2026**

# Cynnwys

Cyflwyniad .......... 3
Dyletswyddau statudol y CHTh .......... 3
Y Cynllun Heddlu a Throseddu .......... 4
Protocol plismona .......... 5
Dull o gomisiynu .......... 5
Egwyddorion comisiynu .......... 7
Asesiad o anghenion .......... 7
Llwybrau comisiynu .......... 7
Comisiynu uniongyrchol .......... 7
Cydgomisiynu .......... 8
Grantiau .......... 8
Arall .......... 8
Proses gaffael .......... 8
Llywodraethu .......... 9
Rheoli risg .......... 10
Y gyllideb gomisiynu .......... 10
Cofrestr gontractau .......... 13
Monitro ac archwilio .......... 15
Monitro gwasanaethau a gomisiynwyd .......... 15
Grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder .......... 16
Archwiliad o'r gwasanaeth .......... 17
Cyfathrebu .......... 18

## Cyflwyniad

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) ardal Dyfed-Powys yn gweithredu fel llais y cyhoedd ar faterion yn ymwneud â phlismona a throseddu. Y comisiynydd sy’n gyfrifol am bennu’r cyfeiriad strategol ar gyfer plismona o fewn ardal yr heddlu. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gwasanaethu Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Mae gan yr ardal boblogaeth o dros 488,000, sy’n chwyddo’n sylweddol bob blwyddyn oherwydd twristiaid, ac mae’n cwmpasu arwynebedd tir sy’n cyfateb i dros hanner maint Cymru.

Mae’r strategaeth hon yn nodi diben a chyfeiriad gweithgareddau comisiynu o fewn Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Mae’n rhoi manylion am y gyllideb a’r gwasanaethau a ddarperir o dan y Cynllun Heddlu a Throseddu ac yn amlinellu’r broses ar gyfer llywodraethu a monitro’r broses o ddarparu gwasanaethau.

## Dyletswyddau statudol y CHTh

Mae gan gomisiynwyr heddlu a throseddu nifer o ddyletswyddau statudol fel y’u hamlinellir yn Neddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Yn ogystal â’u rôl blismona graidd, mae gan gomisiynwyr heddlu a throseddu gylch gwaith i leihau trosedd ac anhrefn, ac mae ganddynt bwerau comisiynu a chyllid i’w galluogi i wneud hyn. Mae’r ddeddf hon yn rhoi pwerau i gomisiynwyr ddyfarnu grantiau i unrhyw sefydliad neu gorff i gyflawni eu blaenoriaethau o ran diogelwch cymunedol.

Ar ddechrau’r rôl yn 2012, cafodd y comisiynwyr grantiau cyfunol a oedd yn cynnwys cyllid a ddyfarnwyd cyn hynny i amrywiaeth o sefydliadau (partneriaethau diogelwch cymunedol a Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau’r Swyddfa Gartref). Cafodd mesurau clustnodi eu dileu i alluogi comisiynwyr i ddefnyddio’r cyllid yn fwy rhydd. Darperir y cyllid grant hwn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder o dan bwerau a roddir i’r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 56 o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004[1]. Mae hyn yn nodi y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ‘dalu grantiau o’r fath i’r cyfryw bersonau ag y mae’n eu hystyried yn briodol mewn cysylltiad â mesurau sy’n ymddangos iddo fel pe baent wedi eu bwriadu i gynorthwyo

[1] Wedi ei gryfhau ymhellach gan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, a sail statudol y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr

dioddefwyr, tystion neu bersonau eraill yr effeithiwyd arnynt gan droseddau'.

Mae gan gomisiynwyr ddyletswydd hefyd i ystyried llais y cyhoedd, y rheini sy'n agored i niwed, a dioddefwyr. O fis Hydref 2014 ymlaen, mae comisiynwyr heddlu a throseddu wedi bod yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr yn lleol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd â nifer o gontractau cenedlaethol gyda darparwyr ar gyfer gwasanaethau, yn cynnwys y gwasanaeth lladdiad cenedlaethol a'r gwasanaeth cyngor tystion yn y llys.

Mae'r ddyletswydd diogelwch cymunedol a'r ddyletswydd cyfiawnder troseddol yn rhoi cyfrifoldebau ar gomisiynwyr heddlu a throseddu i weithio gyda phartneriaid i atal troseddu a mynd i'r afael ag ef. Mae'r dyletswyddau statudol yn fwriadol eang a hyblyg, er mwyn caniatáu i drefniadau gwaith ddatblygu yn y ffordd sydd fwyaf ystyrlon yn lleol. Nod y dyletswyddau yw sicrhau bod y penderfyniadau o ran buddsoddi a blaenoriaethu a wneir gan gomisiynwyr a'u partneriaid yn cael eu gwneud gyda dealltwriaeth lawn o'r goblygiadau i bob partner. Rhaid i'r comisiynydd hefyd fod yn 'bartner perthnasol' yn y partneriaethau plant a phobl ifanc, ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod y swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae gan gomisiynwyr ddyletswyddau hefyd o dan y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr; rhaid iddynt sicrhau bod gan ddioddefwyr fynediad at gyfiawnder adferol ym mhob cam o'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol.

## *Y Cynllun Heddlu a Throseddu*

Mae'n ofynnol i bob CHTh osod cynllun heddlu a throseddu, gan adlewyrchu'r prif gyfleoedd, risgiau a heriau i faes plismona, ac amlinellu eu blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod swydd. Mae blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu 2025–2029 fel a ganlyn:

- Cynorthwyo dioddefwyr ac atal gormesu
- Cynnal cymunedau diogel trwy atal niwed
- Cefnogi system gyfiawnder mwy effeithiol

Mae nifer o egwyddorion allweddol yn ategu'r blaenoriaethau hyn:

- Gweithio mewn partneriaeth
- Llywodraethu ac atebolrwydd

- Cynaliadwyedd
- Ymgysylltu a bod yn llais y gymuned
- Dull pwrpasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

### *Protocol plismona*

Ynghyd â'r dyletswyddau uchod mae Gorchymyn Protocol Plismona 2023, a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau pob comisiynydd heddlu a throseddu, prif gwnstabliaid ac eraill.


Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn monitro cydymffurfedd yn erbyn y protocol plismona. Fel rhan o hyn, mae'r tîm comisiynu yn adrodd yn erbyn mesurau allweddol, gan gynnwys data canlyniadau, cwynion, llywodraethu, cyfathrebu ac archwilio. Cynhyrchir adroddiad ar y mesurau hyn bob chwarter i'r Panel Heddlu a Throseddu.

## Dull o gomisiynu

Dylai'r broses gomisiynu ganolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau, am y gwerth gorau, a sicrhau adolygiad parhaus i ganfod a ydyw gwasanaethau yn llwyddo i fynd i'r afael ag anghenion dioddefwyr neu droseddwyr. Ni ddylid mesur llwyddiant ar sail nifer y defnyddwyr sy'n cael gwasanaeth penodol, ond ar ganlyniadau gwell yn seiliedig ar allu dioddefwyr neu droseddwyr i ddychwelyd i'w ansawdd bywyd blaenorol neu i ansawdd bywyd gwell.

Mae'r diagram isod yn amlinellu'r cylch comisiynu, sy'n canolbwyntio ar bedwar cam:

- Deall: cydnabod y canlyniadau i'w cyflawni ac anghenion lleol
- Cynllunio: mapio allan ac ystyried sut y gellir mynd i'r afael â'r anghenion yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gynaliadwy
- Gwneud: comisiynu atebol, agored a thryloyw
- Adolygu: sicrhau bod gwasanaethau yn atebol drwy fonitro'r ddarpariaeth yn barhaus yn erbyn y canlyniadau y cytunwyd arnynt




Mae’r Llywodraeth yn gweithio i wella’r broses o gomisiynu er mwyn cael y gwasanaethau gorau posibl sy’n darparu gwerth am arian. Mae’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi amlinellu wyth egwyddor o ran comisiynu da a ddylai arwain at ganlyniadau cyhoeddus gwell i unigolion a chymunedau:

1. Deall anghenion defnyddwyr a chymunedau.
2. Ymgynghori â sefydliadau darparwyr posibl, gan gynnwys y rheini o’r trydydd sector ac arbenigwyr lleol, ymhell cyn comisiynu gwasanaethau newydd.
3. Rhoi canlyniadau i ddefnyddwyr wrth wraidd y broses gynllunio strategol.
4. Mapio’r ystod ymarferol lawnaf o ddarparwyr gyda’r bwriad o ddeall y cyfraniad y gallent ei wneud at gyflawni’r canlyniadau hynny.
5. Ystyried buddsoddi yng nghapasiti sylfaen y darparwyr, yn enwedig y rheini sy’n gweithio gyda grwpiau anodd eu cyrraedd.
6. Sicrhau bod prosesau contractio yn dryloyw ac yn deg, gan hwyluso cynnwys yr ystod ehangaf o gyflenwyr, gan gynnwys ystyried is-gontractio a chreu consortia, pan fo’n briodol.
7. Sicrhau contractau hirdymor a rhannu risg, lle bynnag y bo’n briodol, fel ffyrdd o gyflawni effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
8. Ceisio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, cymunedau a darparwyr er mwyn adolygu effeithiolrwydd y broses gomisiynu wrth ddiwallu anghenion lleol.

*Pecyn cymorth comisiynu llwyddiannus y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.*

## *Egwyddorion comisiynu*

Mae gweithgaredd comisiynu wedi ei alinio â phrif themâu a blaenoriaethau strategol y Cynllun Heddlu a Throseddu. Dylid canolbwyntio ar werth am arian, gwneud y mwyaf o adnoddau, a sicrhau bod effaith yr arian sy'n cael ei wario yn cael ei mesur, a bod y gwerth yn cael ei asesu.

Bydd arferion gorau mewn perthynas â chaffael yn cael eu cymhwyso. Mae'r CHTh yn disgwyl i bob proses gaffael ddilyn arferion gorau, a bod yn hygyrch i unrhyw ddarparwr, gan gynnwys y sector gwirfoddol. Bydd yr holl reoliadau a deddfwriaeth berthnasol hefyd yn berthnasol.

Ar gyfer penderfyniad dyfarnu, byddwn yn ystyried yr effaith y bydd dyfarnu'r cyllid yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Mae hyn wedi ei gynnwys mewn prosesau tendro caffael ac o fewn y matrics sgorio ar gyfer dyfarniadau grantiau.

Archwilir i gyfleoedd cydgomisiynu lle bynnag y bo modd er mwyn sicrhau bod buddion a gwerth ychwanegol partneriaethau yn cael eu hystyried yn llawn.

Lle bynnag y bo'n bosibl, y nod ddylai fod dyfarnu contractau tymor canolig i hirdymor er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth gwasanaeth, ac osgoi'r ansefydlogrwydd sy'n cyd-fynd â chylchoedd ariannu tymor byr neu flynyddol.

## *Asesiad o anghenion*

Mae asesiad o anghenion o ddioddefwyr a phobl agored i niwed wedi ei gomisiynu yn ddiweddar, a bydd y canfyddiadau ar gael ym mis Awst 2026. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan y CHTh.

## *Llwybrau comisiynu*

*Comisiynu uniongyrchol*

Er mwyn sicrhau bod y CHTh yn caffael gwasanaethau sy'n cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau o fewn y Cynllun Heddlu a Throseddu, bydd y CHTh yn tendro neu'n contractio yn uniongyrchol â darparwr. Cyflawnir hyn drwy gystadleuaeth agored lle gwahoddir y rheini sy'n tendro i dendro am wasanaethau sy'n bodloni'r amcanion a'r canlyniadau gofynnol o fewn manyleb gwasanaeth bwrpasol.

*Cydgomisiynu*

Pan fo’n briodol, bydd y CHTh yn gweithio gyda phartneriaid a darparwyr er mwyn sicrhau’r canlyniadau mwyaf effeithiol a chost-effeithiol o ddarparu gwasanaethau. Gellir cyflawni hyn drwy strwythurau comisiynu sefydledig a rhai sy’n dod i’r amlwg, a phartneriaethau â rhanddeiliaid allweddol.

*Grantiau*

Bydd y CHTh yn sicrhau bod amrywiol raglenni grant ar gael. Bydd rhai yn agored i bartneriaid i gefnogi eu gwaith ar amcanion cyffredin ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol. Bydd eraill ar agor i elusennau, sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol, gyda’r nod o wella cymunedau lleol a bywydau’r bobl sy’n byw ynddynt.

Dyfernir grantiau yn seiliedig ar feini prawf penodol sy’n cynnwys ystyried y budd cymunedol, yr angen tystiolaethol am y prosiect, hygyrchedd, sut y mae’r prosiect yn bodloni blaenoriaethau’r Cynllun Heddlu a Throseddu, a gwerth am arian.

*Arall*

Yn ogystal â hyn, bydd cyfleoedd drwy gydol y flwyddyn i wneud cais am amrywiol gronfeydd cystadleuol gan y Swyddfa Gartref a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Trafodir pob cyfle yn y Grŵp Prosiectau a Chyllido er mwyn casglu syniadau prosiect posibl, ac i nodi meysydd o angen wedi ei brofi. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn manteisio i’r eithaf ar bob cyfle i ddatblygu gwasanaethau lle bo’n briodol.

Ar gyfer pob mecanwaith ariannu, bydd gan y CHTh gontractau / cytundebau lefel gwasanaeth gyda’r sefydliadau llwyddiannus sy’n nodi manylion y canlyniadau i’w cyflawni, a’r gwerth.

## Proses gaffael

Mae’r tîm comisiynu wedi cynhyrchu canllaw syml i reoliadau caffael. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ynghylch a ddylai’r broses fod yn gaffaeliad neu’n grant, trothwyon, awdurdodiad, llywodraethu a rheolau esemptiad yn unol â’r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol.

Mae adran gaffael yr heddlu yn cynnal holiadur o alluedd cyflenwyr fel rhan o'r broses diwydrwydd dyladwy yn ystod unrhyw broses dendro ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys rhai seiliau dros wahardd pan fo darparwyr wedi eu cael yn euog o gynllwynio, llygredd, twyll ac ati. Mae hefyd yn sicrhau bod ganddyn nhw'r lefelau gofynnol o yswiriant, gwiriadau ariannol Dun a Bradstreet, cydymffurfedd iechyd a diogelwch, cydymffurfedd â deddfau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill, hanes contract blaenorol, a thystiolaeth o gyflawni. Bydd yr adran gyllid hefyd yn cynnal asesiadau risg o dwyll, ac asesiadau risg eraill, wrth sefydlu cyflenwyr newydd.

Yn dilyn dyfarniad tendr, dyfernir contract i'r gwasanaeth llwyddiannus (yn seiliedig ar y telerau ac amodau a ddefnyddir gan adran gaffael Heddlu Dyfed-Powys), sy'n cynnwys nodau ac amcanion y gwasanaeth, dangosyddion perfformiad allweddol, a threfniadau adrodd ar berfformiad / cyllid.

## Llywodraethu

Yn ôl Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, rhaid i'r comisiynydd benderfynu ar egwyddorion eu dull o gomisiynu, y canlyniadau a ddymunir, y gofynion o ran monitro ac adrodd ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir, a'r cyllidebau yr ymdrinnir â hwy.

Mae dau faes o'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol yn arbennig o berthnasol; yn gyntaf y canllawiau ynghylch gwneud penderfyniadau ac, yn ail, y rheoliadau caffael. Mae pob penderfyniad a wneir gan y comisiynydd yn cael ei gofnodi mewn cofnod o benderfyniadau, ei gyhoeddi ar y wefan, ac adroddir arno i'r Panel Heddlu a Throseddu yn unol â hynny.

Mae'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol hefyd yn nodi trefniadau ar gyfer cydweithio a phartneriaethau, gan gynnwys pan fydd y CHTh yn gweithredu fel comisiynydd gwasanaethau, bydd angen iddo/iddi gytuno ar y blaenoriaethau a rennir, a'r canlyniadau y disgwylir eu cyflawni trwy'r contract neu'r cytundeb grant gyda phob darparwr.

Mae data perfformiad gwasanaethau a gomisiynwyd wedi eu cynnwys yn y fframwaith perfformiad sy'n sail i'r Cynllun Heddlu a Throseddu, ac felly adroddir arnynt i'r Bwrdd Perfformiad Strategol. Mae metrigau wedi eu cynnwys yn y fframwaith perfformiad sy'n darparu data o wasanaethau sy'n

triongli'r wybodaeth perfformiad gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn yn cynnwys nifer yr atgyfeiriadau, atgyfeiriadau dro ar ôl tro, y rheini sy'n ymgysylltu â gwasanaethau, y rheini sy'n datgysylltu o'r system cyfiawnder troseddol, canlyniadau a gyflawnwyd gan y gwasanaethau ac adborth ansoddol ynghylch cydymffurfio â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr.

### *Rheoli risg*

Mae rhwymedigaethau darparwyr gwasanaeth o ran cyflogi staff, diogelu, a deddfwriaeth berthnasol arall wedi eu diffinio'n glir o fewn dogfennau contract. Mae hyn yn cynnwys cymalau sy'n ymwneud ag indemniad a gofynion o ran yswiriant.

Mae darparwyr gwasanaeth yn rheoli eu risg eu hunain drwy gydol y contract, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r CHTh am unrhyw faterion sy'n codi sy'n debygol o effeithio ar ganlyniad y contract. Mae hyn hefyd wedi ei ymgorffori yn yr ymarfer caffael gwreiddiol, lle mae'n ofynnol i'r rheini sy'n tendro nodi risgiau posibl, a chynnig camau lliniaru.


Mae gan y comisiynydd gyfrifoldeb statudol i gynrychioli llais dioddefwyr. Felly, byddai effaith peidio â chomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr yn torri'r cyfrifoldeb hwn ac yn effeithio'n negyddol ar lefelau hyder y cyhoedd a'r broses o ddarparu gwasanaethau. Yn yr un modd, mae effaith peidio â sicrhau darpariaeth gwasanaethau i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â diogelwch ehangach yn y gymuned yn debygol o gynyddu trosedd, anhrefn a throseddu, ac effeithio'n negyddol ar ansawdd bywyd cymunedau a hyder y cyhoedd.


## Y gyllideb gomisiynu

Mae cyfanswm y gyllideb gomisiynu yn cynnwys grant gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder at ddiben comisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr, ynghyd â dyraniad o gyllid craidd y CHTh. Dyrennir grant dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn unol â fformiwla ariannu ar sail poblogaeth. Ei ddiben yw ariannu gwasanaethau cyswllt cyntaf i ddioddefwyr, gwasanaethau trais rhywiol a thrais domestig, yn ogystal â gwasanaethau i gynorthwyo dioddefwyr o fathau eraill o droseddau fel y bo angen.

Y gyllideb gomisiynu ar gyfer 2025–2026 oedd £3,047,982, a oedd yn cynnwys costau staff yn ogystal â chostau a ysgwyddwyd ar gyfer darparu gwasanaethau uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder gwerth £582,885, yn ogystal â'r cyllid ychwanegol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gynorthwyo dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gwerth £803,326. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer cynghorwyr annibynnol ar drais domestig a rhywiol, yn ogystal â chapasiti ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn y gymuned.

Mae'r graff isod yn dangos canran y gyllideb graidd a ddyrannwyd i feysydd gweithgarwch:




Ffynonellau ariannu ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd 2025/26
20%
28%
52%
Grant dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Cyllid cam-drin domestig a thrais rhywiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Cyllid craiff y Comisiynwyr

## *Cofrestr gontractau*

Mae'r tabl isod yn cynrychioli'r gwasanaethau a gomisiynir ar hyn o bryd gan y CHTh, gan amlygu'r rheini a gomisiynir ar y cyd ag asiantaethau partner.

| Gwasanaeth | Asiantaeth lletyol | Dyddiad terfynu | Gwerth blynyddol |
|---|---|---|---|
| **Camddefnyddio sylweddau Dyfed** | **Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed** | **31 Mawrth 2027** | **£248,441** |
| **Camddefnyddio sylweddau Powys** | **Kaleidoscope** | **30 Medi 2027** | **£75,000** |
| **Cynghorwyr annibynnol ar drais domestig** | **Consortiwm Gwasanaethau Trais Domestig Calan Dal i Godi** | **31 Mawrth 2028** | **£552,903** |
| **Gwasanaeth atgyfeirio dioddefwyr (gan gynnwys plant a phobl ifanc)** | **Cymorth i Ddioddefwyr** | **31 Mawrth 2027** | **£419,608** |
| **Cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol** | **Llwybrau Newydd** | **31 Mawrth 2027** | **£254,854** |
| **Gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr Damweiniau ar y Ffyrdd** | **Cymorth i Ddioddefwyr** | **31 Mawrth 2028** | **£48,000** |
| **Braenaru'r Llys Teulu** | **Safer Merthyr Tudful a Cymorth i Fenywod Thrive** | **31 Mawrth 2027** | **Ariennir drwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, dim cyfraniad gan y CHTh** |
| **Gweithwyr argyfwng** | **Llwybrau Newydd** | **31 Rhagfyr 2027** | **£32,000 (dan adolygiad drwy Wasanaethau Ymosodiad Rhywiol Cymru)** |

| Gwasanaeth | Sefydliad lletyol | Dyddiad terfynu | Gwerth blynyddol |
|---|---|---|---|
| Y Rhaglen Cyflawnwyr Cam-drin Domestig gan gynnwys CARA (rhybuddiad a cham-drin perthynas) | Gwasanaeth cam-drin domestig Threshold | 31 Mawrth 2028 | Cyfraniad o £19,850 at y contract CARA hyd at £60,000 (i'w gadarnhau) |
| Ôl-drafod ar gyfer pobl ifanc sydd ar goll | Llamau | 31 Mawrth 2028 | £124,609 |
| Cynllun dargyfeirio troseddwyr | Gofal a Chymorth Pobl | 31 Mawrth 2028 | £320,000 |
| Cyswllt dioddefwyr ar gyfer pobl ifanc | Timau troseddwyr ifanc ac atal | 31 Mawrth 2028 | £165,000 Blwyddyn 1<br>£125,000 Blynyddoedd 2 a 3 |

Allwedd:

**Wedi ei gomisiynu ar y cyd ag awdurdodau lleol**

**Wedi ei gomisiynu ar y cyd ag Iechyd**

**Wedi ei gomisiynu ar y cyd â swyddfeydd comisiynwyr heddlu a throseddu eraill**

**Wedi ei gomisiynu ar y cyd ag Iechyd a swyddfeydd comisiynwyr heddlu a throseddu trwy raglen Gwasanaethau Ymosodiad Rhywiol Cymru**

**Wedi ei gomisiynu ar y cyd â phartneriaid trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

**CHTh Dyfed-Powys yn unig**

# Monitro ac archwilio

## *Monitro gwasanaethau a gomisiynwyd*

Bwriad CHTh Dyfed-Powys yw comisiynu gwasanaethau a all gyflawni a dangos canlyniadau pendant. Cyfrifoldeb y CHTh, drwy SCHTh, fydd monitro cynnydd pob gweithgaredd a gomisiynwyd yn erbyn y canlyniadau arfaethedig.

Mae canlyniadau ar gyfer pob contract a ddyfernir yn cael eu datblygu yn seiliedig ar nodau ac amcanion y gwasanaeth. O dan y canlyniadau y cytunwyd arnynt mae amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad a all gynnwys mesurau ansoddol a meintiol. Trafodir dangosyddion perfformiad gyda'r darparwr er mwyn sicrhau eu bod yn gyraeddadwy. Disgwylir i ddarparwyr weithio gyda'r comisiynydd drwy gydol cyfnod y contract i ddatblygu ymhellach fframwaith y canlyniadau mesuradwy ar gyfer y gwasanaethau. Mae cael y mesurau hyn ar waith yn galluogi'r CHTh i ddwyn y darparwr gwasanaeth i gyfrif am gyflawni'r contract yn llwyddiannus, a monitro cynnydd drwy gydol oes y contract.

Mae dulliau monitro wedi eu hategu gan sut y bwriedir defnyddio'r wybodaeth, boed i ddeall effaith gyffredinol y gwasanaeth a gomisiynwyd, i ddatblygu a gwella ymarfer, i ddylanwadu ar bolisi cyhoeddus neu i baratoi ar gyfer comisiynu yn y dyfodol.

Fel rhan o amodau eu contract, mae darparwyr yn cyflwyno adroddiadau chwarterol. Mae'r rhain yn cynnwys data perfformiad, astudiaethau achos, unrhyw gwynion neu ganmoliaeth sydd wedi dod i law, hyfforddiant, diweddariadau ynghylch staff / recriwtio, unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at gomisiynwyr, ynghyd â diweddariad naratif ar y cynnydd a wnaed yn ystod y chwarter.

Mae data a ddarperir yn yr adroddiadau hyn yn cael eu trosglwyddo i ddangosfwrdd perfformiad sydd gan y tîm comisiynu. Mae hyn yn darparu asesiad parhaus o berfformiad dros amser ac yn erbyn dangosyddion allweddol.

Cynhelir cyfarfodydd adolygu contractau bob chwarter gyda phob darparwr a, lle cânt eu comisiynu ar y cyd, gyda chynrychiolwyr o bartïon comisiynu eraill. Gofynnir i bob darparwr gasglu a mesur dangosyddion perfformiad ar eu systemau eu hunain yn fewnol, gan sicrhau eu bod yn atebol ac yn rheoli eu monitro / adrodd eu hunain.

Yn unol â chytundebau'r contract, mae'n ofynnol i ddarparwyr gyflwyno datganiadau ariannol diwedd blwyddyn sy'n dangos gwariant alldro gwirioneddol o fewn 30 diwrnod gwaith yn dilyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

## *Grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder*

Mae telerau ac amodau grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys meini prawf diwydrwydd dyladwy, ynghyd â chyflwyniadau data a chanlyniadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn gan y gwasanaethau sy'n cael cyllid. Mae'r gofynion ar gyfer defnyddio'r grant yn cynnwys:

- darparu neu gomisiynu gwasanaethau cymorth emosiynol, therapiwtig ac ymarferol pwrpasol i ddioddefwyr troseddau, i'w helpu i ymdopi â'r drosedd, a chyn belled ag y bo modd, i wella o'i heffeithiau.
- Gall gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:
    - cwnsela wyneb yn wyneb neu o bell i unigolion a/neu eu teuluoedd;
    - llinell gymorth neu sgwrs fyw;
    - cymorth llys neu deulu;
    - cymorth wedi ei deilwra ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a'r rheini â nodweddion a ddiogelir, gan gynnwys cymorth i grwpiau penodol, fel grwpiau ethnig lleiafrifol, dioddefwyr anabl, dioddefwyr LHDTC+, dioddefwyr gwrywaidd.
- Ni ddylid dyfarnu cyllid Onward i ddarparu llety na gwasanaethau cymorth o fewn llety.

Gellir defnyddio'r cyllid hefyd i feithrin capasiti a gallu o fewn y sector Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol, ac i sicrhau bod trefniadau pwynt cyswllt unigol digonol ar waith yn ardal yr heddlu i alluogi mynediad syml a chyflym i wasanaethau.

Mae'n ofynnol i'r sefydliadau sy'n cael cyllid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy'r CHTh ddarparu mesuriadau canlyniad gan gynnwys data meintiol ar atgyfeiriadau, lefelau ymgysylltu ac ymddieithrio, a demograffeg defnyddwyr gwasanaethau.

## *Archwiliad o'r gwasanaeth*

Fel yr amlinellwyd yn y strategaeth hon, mae nifer o brosesau ar waith sy'n gwasanaethu i fonitro'r gwerth a'r canlyniadau a gyflawnir gan wasanaethau a ariennir gan y CHTh. I ategu hyn, cynhelir adolygiad bwrdd gwaith yn flynyddol ar gyfer pob gwasanaeth a gomisiynir.

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cael adroddiadau perfformiad yn amserol
- Llywodraethu cyfarfodydd adolygu contractau
- Cynnydd cadarnhaol wedi ei ddangos ar ddangosyddion perfformiad allweddol
- Gwerth am arian / enillion ar fuddsoddiad
- Adrodd amserol a chywir ar y sefyllfa ariannol
- Gweithdrefn gwyno ar waith ac ar gael i'r cyhoedd
- Cydymffurfedd fetio
- Polisïau ar waith yn unol â gofynion y contract
- Trefniadau prosesu data neu rannu gwybodaeth ar waith lle bo angen
- Darpariaeth o ran y Gymraeg

Cynhelir archwiliad mwy manwl ar gyfer y gwasanaethau hynny pan fo contractau ar fin dod i ben, er mwyn llywio cynlluniau ailgomisiynu. Mae'r rhain wedi eu hamserlennu yn unol â therfynau amser diwedd contract.

Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r canlynol, yn ogystal â'r wybodaeth adolygiad blynyddol:

- Cynllun gwasanaeth di-dor
- Sicrhau ansawdd mewnol
- Arolygiadau a chanlyniadau
- Swydd-ddisgrifiadau a pholisi recriwtio
- Cynllun hyfforddi a chofnod hyfforddi staff
- Ceisiadau / gweithgarwch rhyddid gwybodaeth ac ati
- Diogelu
- Adroddiadau am ddigwyddiadau

- Mapiau partneriaeth / rhanddeiliaid / cynlluniau ymgysylltu
- Cynllun cyfathrebu
- Tystiolaeth o ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaethau
- Hapsampl o ffeiliau defnyddwyr gwasanaethau
- Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau neu drwy'r Rhwydwaith Eiriolaeth Dioddefwyr

## Cyfathrebu

Mae'r tîm comisiynu yn darparu gwybodaeth yn rheolaidd i'r cyhoedd a phartneriaid drwy ddatganiadau i'r wasg, cyfryngau cymdeithasol ac erthyglau mewn cyhoeddiadau cenedlaethol. Yn ogystal â hyn, mae gwefan y CHTh yn cynnwys adran ar y gwasanaethau sydd ar gael i'r gymuned yma. Mae hon yn darparu disgrifiad o bob gwasanaeth, ynghyd â manylion cyswllt.

Mae'r tîm comisiynu wedi cynhyrchu dogfennau trosolwg un dudalen o bob gwasanaeth yn amlinellu diben y contract, y darparwr, y gost, yr hyd, a'r prif bethau y gellir eu cyflawni / canlyniadau o'r gwasanaethau. Mae'r rhain wedi eu cynnwys ar wefan y SCHTh yma er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn ehangach o gyflawni yn erbyn buddsoddiad.

Yn ogystal, mae'r tîm wedi datblygu adolygiadau o enillion ar fuddsoddiad ar gyfer nifer o wasanaethau, gyda'r gwasanaeth cynghori annibynnol ar drais rhywiol, y gwasanaeth pobl ifanc sydd ar goll, a'r gwasanaeth dargyfeirio troseddwyr wedi eu cwblhau hyd yma. Bydd y tîm comisiynu yn trefnu'r gwasanaethau olaf i gynnal astudiaeth ar yr enillion ar fuddsoddiad yn ystod 2026–2027. Bydd y rhain ar gael ar wefan SCHTh.

Mae fideo animeiddiedig sy'n codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr a chymunedau bellach ar gael ar wefan y CHTh, ynghyd â nifer o daflenni a ffeithluniau sy'n tynnu sylw at waith ein darparwyr.
Mae taflen copi caled o wasanaethau hefyd wedi ei chynhyrchu, ac fe'i defnyddir ym mhob digwyddiad cymunedol lle mae'r CHTh / SCHTh yn bresennol.